

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD ARBENNIG GORFFENNAF 2019
1 Gorffennaf 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn

2. DATGAN DIDDORDEB

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Bydd cofnodion cyfarfod 24 Mehefin yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod Medi 2019.

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Nia Povey, Rhydwen Roberts, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones, Ifor Jones
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

**4. TRAFODAETH AR YMATEB I LYTHYR SWYDDFA
ARCHWILIO CYMRU DYDDIEDIG**

Eglurwyd fod y cyfarfod yma yn gyfarfod arbennig i drafod ymateb i lythyr Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 13 Mehefin 2019. Roedd pob aelod wedi cael copi o'r llythyr.

Cytunwyd mai'r cam cyntaf oedd sicrhau fod y ddogfennaeth lywodraethu disgwylidig mewn lle. Roedd rhai o'r rhain wedi mynd ar goll wrth i swydd y Clerc gael ei throsglwyddo i'r Clerc newydd.

Cytunwyd y dylid trafod y ddogfennaeth llywodraethu a'u cymeradwyo yn y cyfarfod yma. Bwriedir eu hadolygu a'u diweddarau ymhellach yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Cytunwyd y gallai y bydd angen cyfarfod arall tua 22 Gorffennaf er mwyn trafod ymhellach a chytuno ar yr ymateb terfynol i Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yr union ddyddiad i'w gadarnhau.

5. Cymeradwyo Dogfennau

Trafodwyd ac fe gymeradwyd a mabwysiadwyd y dogfennau llywodraethu canlynol:-

1. Asesiad Risg dyddiedig 1 Gorffennaf 2019
2. Cofrestr Asedau dyddiedig 1 Gorffennaf 2019
3. Rheolau Ariannol dyddiedig 24 Mehefin 2019
4. Rheolau Sefydlog dyddiedig 1 Gorffennaf 2019
5. Cod Ymddygiad dyddiedig 16 Mehefin 2008

Cytunwyd fod angen gwneud asesiad risg ar yr asedau a'r adnoddau a restrir yn yr asesiad risg bob chwe mis. Cytunwyd hefyd ddefnyddio cyfarfod mis Mawrth bob blwyddyn fel cyfarfod i adolygu dogfennaeth y cyngor cymuned.

Yn ogystal, cafwyd ffurflen datgan buddiant wedi ei lofnodi gan bawb, heblaw am y Cynghorydd Nyfain Wynn fydd yn dychwelyd ei ffurflen hi i'r Clerc yn uniongyrchol drwy'r post.

6. Argymhellion Gwella Trefniadaeth Lywodraethu

- parhau i fonitro'r gyllideb a gwariant yn rheolaidd
- adolygu dogfennaeth lywodraethol bob mis Mawrth
- sicrhau fod y ffurflen flynyddol yn cael ei chymeradwyo erbyn Mehefin 30 bob blwyddyn
- sicrhau fod adroddiad yr archwilydd menwol yn cael ei drafod yn flynyddol
- gwella trefniadaeth llofnodi sieciau

Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod y ffurflen flynyddol a'r ymateb i Swyddfa Archwilio Cymru cyn diwedd Gorffennaf.